# Cofnodion

## Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Gwener, 21 Ionawr 2022 |
| Amser: | 10.00 am |
| Bresennol: | Cynghorwyr L Lacey (Cadeirydd), P Hourahine, M Al-Nuaimi, Y Forsey, C Ferris and M Evans<br><br>Connor Hall (Cynghorydd Craffu), Rhys Cornwall (Strategic Director - Transformation and Corporate Centre) and Joanne Gossage (Green Services Manager) |
| Yn bresennol: | |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorwyr F Hussain |

1 **Ymddiheuriadau**

Cyng. Hussain a Jennie Judd.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Gofynnodd y pwyllgor i'r Cyng. C Evans gael ei enwi ar d. 3 i osgoi dryswch. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2021 fel rhai cywir.

4 **Strategaeth 5 Mlynedd yr Iaith Gymraeg**

**Gwahoddwyd:**
Rhys Cornwall – Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol
Heather Powell – Rheolwr Cymunedau Cysylltiedig
Hywel Jones – Swyddog Polisi'r Gymraeg

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol yr adroddiad.
Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol y pwyllgor fod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben ond eu bod yn dal i gymryd sylwadau.
Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol y pwyllgor mai amserlen yr adroddiad oedd iddo fynd at y Cabinet ym mis Chwefror a'r Cyngor ym mis Mawrth.
Nododd y Rheolwr Cymunedau Cysylltiedig fod rhai rheoliadau penodol oedd eu hangen dan y safonau presennol, gan gynnwys targed twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd, oedd yn asio gyda'r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg. Hysbysodd y Rheolwr Cymunedau Cysylltiedig y pwyllgor fod y rhain yn

canoli ynghylch 3 thema strategol - addysg, bod yn weladwy, ac ymwneud. Hysbysodd y pwyllgor fod hyn yn destun ymgynghori, ac yn cael ei anfon at bartneriaid yr iaith Gymraeg a gwefan Dinas Casnewydd ar ddydd Llun. Dywedodd hefyd fod arolwg derbyn hefyd wedi ei gynnal dros yr haf.

**Cwestiynau:**

Gwnaed sylw am y diffyg defnydd o'r Gymraeg yn yr adroddiad
A oedd y galw am ysgolion Cymraeg yn cyfateb â'r ddarpariaeth o lefydd?

- Hysbysodd Swyddog Polisi'r Gymraeg y pwyllgor y cynhaliwyd cyfarfod cynllunio llefydd ysgol y diwrnod blaenorol, a bod hyn yn eitem sefydlog ar yr agenda. Ar hyn o bryd, yr oedd dim ond digon o lefydd yn yr ysgolion cynradd, ond byddai'r ddarpariaeth yno tan 2032, er bod hyn yn cael ei adolygu'n gyson.

- Dywedodd Swyddog Polisi'r Gymraeg wrth y pwyllgor eu bod yn ceisio cynyddu'r niferoedd yn ysgol Gymraeg newydd Pilgwenlli.

Beth oedd y costau am gyfieithu a mentrau Cymraeg eraill?

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y pwyllgor y byddai'n hapus i ddarparu ffigurau gwirioneddol ar gyfer hyn.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y pwyllgor, pan gawsant Safonau'r iaith Gymraeg yn wreiddiol oedd yn gymwys i Gasnewydd, fod rhan o'r broses ymgynghori â'r awdurdod lleol yn ymwneud â chost gweithredu rhai o'r safonau, sef costau cyfieithu yn bennaf. Dywedodd wrth y pwyllgor mai'r gyllideb gyfredol ar gyfer cyfieithu oedd £101,100 y flwyddyn, sef cyfran fwyaf cost cwrdd â'r safonau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol nad yw hyn yn cynnwys unrhyw ddatblygu ar y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan fod hyn wedi ei gynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf Addysg ar gyfer ysgolion. Ymysg costau eraill mae darpariaeth ar gyfer Swyddog Polisi'r Gymraeg a Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y pwyllgor fod gwaith yn cael ei wneud i recriwtio mwy o staff Cymraeg eu hiaith ac i annog staff i ddysgu Cymraeg.
- Teimlai'r Rheolwr Cymunedau Cysylltiedig y gellid edrych eto ar eiriad y cwestiwn ynghylch ystadegau am siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd ac ymwneud y ganolfan gyswllt â siaradwyr Cymraeg.

Pa gynlluniau oedd ar gael i gynyddu amlygrwydd, ymwneud a chyflogaeth i siaradwyr Cymraeg?

- Amlygodd y Rheolwr Cymunedau Cysylltiedig yr angen i wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy yn y Cyngor, ar waetha'r safonau presennol ynghylch cyfieithu dogfennau, llofnodion e-byst a negeseuon allan-o'r-swyddfa yn y ddwy iaith, etc. Nododd hefyd fod angen gwneud yr iaith yn fwy amlwg y tu allan i'r cyngor i aelodau o'r gymuned ymwneud â'r Gymraeg y tu allan i leoliadau lle buasent yn disgwyl ei gweld yn cael ei defnyddio, fel ysgolion a cholegau. Hysbysodd y Rheolwr Cymunedau Cysylltiedig y pwyllgor eu bod yn canolbwyntio ar edrych ar bartneriaethau cymunedol nad oedd yn draddodiadol Gymraeg i annog hyn, a soniodd fod Dreigiau Casnewydd Gwent am gynnig rhaglenni dwyieithog yn eu gemau, a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar ddyddiau gemau er mwyn annog y Gymraeg mewn cyd-destunau llai ffurfiol.
- Nododd Swyddog Polisi'r Gymraeg y gwaith oedd yn cael ei wneud i wneud y Gymraeg yn fwy amlwg yn y gymuned. Dywedodd fod dwy haen i'r agwedd o ran ymdrin â sgiliau a gwaith: yn fewnol, lle byddid yn annog staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y Cyngor, a sut i ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg i'r cyngor, a gwneud y Gymraeg yn amlycach yn y Cyngor. Yr haen arall oedd gweithio gyda'r Bwrdd Sgiliau Cywir a phartneriaid y sector cyhoeddus i gynyddu'r iaith Gymraeg fel sgil.

Dywedodd Swyddog Polisi'r Gymraeg y byddai hyn yn cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg o ran ei hybu ym mhob ysgol, nid dim ond y rhai cyfrwng-Cymraeg. Dywedodd wrth y pwyllgor y byddai grŵp bychan yn adrodd yn ôl i Fwrdd Gwasanaeth y Gymraeg, a'i fod yn gobeithio trwy hyn cael dull safonedig o fesur sgiliau yn y Gymraeg.

- Gofynnodd aelod o'r pwyllgor am esboniad o waith oedd yn cael ei wneud gyda'r sector preifat.
- Dywedodd Swyddog Polisi'r Gymraeg nad yw'r sector preifat yn dod dan yr un safonau, ond eu bod yn gweithio i'w cymell.

5 **Parciau - Rheoli Cwn PSPO**

**Gwahoddwyd**:

Joanne Gossage (Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden)

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth yr adroddiad, gan nodi ei fod wedi ei newid ac y bu ymwneud â rhanddeiliaid ynghylch yr adroddiad fel y'i diwygiwyd, ac y llwyddwyd i gynnal ymarferiad ymgynghori trylwyr. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth fod baneri a hysbysiadau wedi eu cynhyrchu, a bod yr ymarferiad ymgynghori wedi ei gysylltu trwy'r cyfryngau cymdeithasol a gwefan Cyngor Dinas Casnewydd. Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaeth y pwyllgor y byddai'r adroddiad yn cael ei ddangos i Aelodau'r Cabinet cyn cael ei ddwyn yn ôl i'r pwyllgor.
Yr oedd dros 3000 o bobl wedi gweld y dudalen GGMC, a bu ymwneud o holl wardiau'r ddinas.
Nododd aelod o'r pwyllgor y bu nifer dda o ymatebion a chanmolodd y tîm am ddefnyddio agwedd mor amrywiol i gael ymateb i'r ymgynghoriad.

**Cwestiynau:**
Sut byddai'r GGMC yn cael ei orfodi?
A oes digon o finiau ar gael i'r sawl sy'n mynd â'u cŵn am dro i roi gwastraff ynddynt?

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth nad pwrpas y GGMC oedd bod yn rhy llym. Teimlai mai nod geiriad y gorchymyn fyddai troi pobl ymaith oddi wrth rai gweithgareddau, ac y buasent yn plismona eu hunain i ryw raddau. Teimlai y dylai'r mesurau fod yn gymesur a mynd yn llymach yn unig lle'r oedd yn rhaid.
- Holodd yr aelod pwyllgor a oedd staff ar gael i orfodi'r gorchymyn.
- Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaeth y pwyllgor mai swyddogion y Cyngor fyddai'n gyfrifol am orfodi'r mesurau meddalach, tra gellid cyfeirio problemau mwy cyson at Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol, Wardeiniaid Cŵn neu'r Heddlu i'w monitro.
- Holodd yr aelod pwyllgor a fyddai dirwyon yn cael eu rhoi yn y fan a'r lle.
- Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth y byddai hyn yn digwydd.

Sut byddai'r maes gwasanaeth yn argymell i'r cyhoedd adrodd am achosion o dorri'r gorchymyn?

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth wrth y pwyllgor, petai'r gorchymyn yn llwyddiannus, y byddai darpariaeth ar y wefan a'r ganolfan gyswllt i adrodd am faterion.

A fydd arwyddion yn cael eu codi i hysbysu'r cyhoedd am y gorchymyn?

- Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth fod hyn yn cael ei hysbysebu'n ffurfiol ar draws yr holl barciau.

Sut y dylai trigolion roi gwybod am achosion o gŵn yn brathu?

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth mai mater i'r heddlu fyddai hyn.

Fyddai mwy o finiau gwastraff yn cael eu darparu?

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth eu bod wedi adolygu hyn ac wedi gosod mwy o finiau ar safleoedd oherwydd eu bod wedi derbyn arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Anogodd y Rheolwr Gwasanaeth y pwyllgor i roi gwybod iddi os oedd unrhyw safleoedd penodol y carent i'r tîm eu hadolygu o ran darparu biniau.

Beth petai gormod o leiniau yn cael eu marcio?

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth wrth y pwyllgor fod lleiniau yn cael eu harchebu trwy gydol y tymor chwaraeon trwy system sy'n bodoli eisoes gyda Casnewydd Fyw. Yr oedd y Rheolwr Gwasanaeth yn sylweddoli fod digwyddiadau a archebwyd weithiau yn cael eu canslo neu eu hail-drefnu, ond eu bod yn marcio lleiniau yn unig ar gyfer archebion sydd yn y dyddiadur, ac er lles y cyhoedd.

A yw'r biniau a osodir yn rhai at ddefnydd cyffredinol, neu ai biniau gwastraff cŵn ydynt?

- Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth mai rhai cyffredinol yw'r rhan fwyaf o finiau.

Beth oedd yn cael ei wneud ynghylch cŵn ar lwybrai beicio?

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod llwybrau beicio oll yn rhai lle rhennir y defnydd onid ydynt ar briffordd unswydd, a bod gan gerddwyr hawl tramwy dros feiciau.
- Cytunodd yr aelod pwyllgor y dylai pawb fod yn ystyrlon, ond teimlai nad oedd modd darogan o hyd sut y byddai cŵn yn ymddwyn, ac y byddai darpariaeth ar rai llwybrau i gŵn fod ar dennyn yn fuddiol.
- Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth mai cyfrifoldeb y perchennog oedd rheoli'r ci wrth ddefnyddio llwybrau oedd yn cael eu rhannu neu briffyrdd, ac nad oedd yn teimlo y dylid gosod cyfyngiadau ar berchenogion i gael eu cŵn ar dennyn. Dywedodd wrth y pwyllgor fod arwyddion ar gael i annog pobl i fod yn gyfrifol.

## 6 Adroddiad Cynghorydd Craffu

Strategaeth Iaith Gymraeg

- Hoffai'r Pwyllgor ffigyrau cost manwl am bob agwedd o Strategaeth yr Iaith Gymraeg.
- Hoffai'r pwyllgor ystadegau am nifer y siaradwyr Cymraeg a faint sy'n cysylltu â'r Ganolfan Gyswllt yn Gymraeg.
- Argymhellodd y Pwyllgor y dylai mwy o'r adroddiad fod yn Gymraeg i adlewyrchu ei gynnwys.

GGMC Parciau

- Canmolodd y Pwyllgor y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a nifer yr ymatebion.

Gyda'r naill adroddiad a'r llall, yr oedd y pwyllgor yn gyffredinol yn hapus gyda'r cynnwys, fformat ac eglurder.

7 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Ni nodwyd amser terfynu'r cyfarfod

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified